GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board




# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update





*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 22: wythnos **14/06/2021**

## Cynnydd Wythnosol (7 - 14 Mehefin)



**Rydym bellach wedi rhoi cyfanswm o 690,028 o frechlynnau** (cyfuniad o ddosau 1af ac 2il) ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd. Rydym bellach wedi gwahodd pawb sy'n 18 oed a hŷn ar gyfer eu hapwyntiad brechiad cyntaf, gyda 86% o boblogaeth Gwent yn derbyn eu dos cyntaf o frechiad Covid.

Os nad ydych wedi cael eich apwyntiad cyntaf i gael eich brechlyn Covid, cwblhewch y ffurflen ganlynol os gwelwch yn dda:
https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/not-vaccinated-yet/
neu ffoniwch 0300 303 1373

## Ddim am adael unrhyw un ar ôl...

Ar ddydd Sadwrn 26 Mehefin, byddwn yn cynnal clinigau brechu galw heibio yn ein Clinigau Brechu Torfol yng Nghanolfan Casnewydd a Glynebwy. Mae'r clinig galw heibio hwn ar gyfer dos cyntaf yn unig ac mae'n agored i unrhyw un 18 oed a hŷn gan y bydd Pfizer ac AstraZeneca ar gael. Nid oes angen apwyntiad, ond bydd angen i chi ddod ag ID.

**Manylion:**
**Dydd Sadwrn 26 Mehefin, 10am-4pm**
**Canolfan Hamdden Casnewydd, 1 Canolfan Ffordd y Brenin, Casnewydd, NP20 1UH**
**Swyddfeydd Cyffredinol Blaenau Gwent, Steel Works Rd Glynebwy NP23 8UW**



## Brechiadau mewn tywydd poeth

Wrth i'r tywydd gynhesu, mae'n bwysig sicrhau eich bod yn hydradu ac wedi bwyta cyn mynd i'ch apwyntiad brechu.

## FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 14/06/2021)

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

# 690,028

**Cyfanswm y dos cyntaf 421,406**

**Cyfanswm yr ail ddos 268,622**

| | | |
|---|---|---|
| **Pobl 65 oed a'n hŷn** | 96% | 94% |
| **Grŵp 6 (Agored i Niwed)** | 89% | 74% |
| **Pobl 60-64 mlwydd oed** | 93% | 89% |
| **Pobl 55-59 mlwydd oed** | 91% | 84% |
| **Pobl 50-54 mlwydd oed** | 89% | 68% |
| **Pobl 40-49 mlwydd oed** | 85% | 32% |
| **Pobl 30-39 mlwydd oed** | 76% | -- |
| **Pobl 18-29 mlwydd oed** | 72% | -- |

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

## Ail Ddosau

Erbyn heddiw, dylai unigolion 50-54 oed fod wedi cael eu gwahoddiad i gael eu hail ddos, a bydd unigolion 45-49 oed yn dechrau cael eu gwahoddiadau yn ystod yr wythnosau nesaf.

Os derbynioch eich dos 1af o Pfizer rhwng 7 Rhagfyr 2020 – 11 Ebrill 2021 ac nid ydych wedi cael gwahoddiad ar gyfer eich ail ddos eto, cwblhewch y ffurflen ganlynol ar ein gwefan: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/overdue-pfizer-second-dose/

Os derbynioch eich dos 1af o AstraZeneca rhwng 4 Ionawr 2021 – 11 Ebrill 2021 ac nid ydych wedi cael gwahoddiad ar gyfer eich 2il ddos eto, cwblhewch y ffurflen ganlynol ar ein gwefan: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/overdue-astrazeneca-second-dose/

Os cawsoch eich dos cyntaf o frechlyn AstraZeneca yn eich Meddygfa Teulu, byddant yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i drefnu eich ail ddos.




## Rhif Ffôn Y Ganolfan Drefnu

Erbyn hyn, dylai oedolion sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod wedi derbyn cynnig i gael brechiad ar un o'n safleoedd. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl. Felly, os nad ydych eisoes wedi derbyn apwyntiad, neu rydych wedi gwrthod, neu wedi methu â mynd am eich brechiad cyntaf, cysylltwch â ni cyn gynted â phosib. Mae ein tîm trefnu wrth law ac yn barod i roi apwyntiad i chi yn un o'n Canolfannau Brechu Torfol. Y brechlyn yw'r ffordd orau i amddiffyn eich hun, eich anwyliaid a'n cymuned rhag COVID-19.

**Rhif ffôn ein Llinell Archebu Brechu Torfol yw 0300 303 1373.**
Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi.

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

## Trefn Brechlynnau

| | |
|---|---|
| 80 oed a hŷn | Meddygfeydd Meddyg Teulu |
| 72-79 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 70-71 oed | Meddygfeydd |
| Grŵp 4 | Meddygfeydd |
| 65-69 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 60-64 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 55-59 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 52-54 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 50-51 oed | Meddygfeydd |
| 18-49 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| Yn Gaeth i'r Tŷ | Timau Symudol |
| Grŵp 6 | Meddygfeydd |

## Myfyriwr yn byw yng Ngwent?

Os ydych yn fyfyriwr sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ond nad ydych wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu lleol, gallwch barhau i dderbyn brechiad yn un o'n Canolfannau Brechu Torfol drwy gwblhau'r ffurflen isod: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/student-living-in-gwent

## Cyrhaeddwch yn brydlon

Peidiwch â dod mwy na 5 munud yn gynnar i'ch apwyntiad os gwelwch yn dda. Er ein bod yn gwerthfawrogi eich prydlondeb ar gyfer eich apwyntiad, gall cyrraedd yn rhy gynnar achosi traffig.